



Ffydd mewn Gwleidyddiaeth:



Etholiad Cyffredinol 2017

A yw'r etholiad sydd ar ddigwydd yn eich llenwi â chyffro, neu â difaterwch? Neu rywbeth yn y canol?



Mae'r adnodd hwn wedi cael ei gynhyrchu gan y Joint Public Issues Team (Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr, Eglwys yr Alban, yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig) ac wedi ei addasu ychydig i'w ddefnyddio yng Nghymru gan Cytûn (Eglwys Ynghyd yng Nghymru). I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau, gan gynnwys myfyrdodau Beiblaidd, edrychwch ar www.jointpublicissues.org.uk/general-election-2017/ a www.cytun.cymru/etholiad2017

Mae amseroedd yn newid

Mae pob Etholiad Cyffredinol yn gyfle i ddinasyddion gymryd rhan yn feirniadol ac adeiladol yn y broses ddemocrataidd. Gall fod yn ystrydeb i awgrymu "na fu erioed gymaint yn y fantol", ond mae elfen o wirionedd i'r ymadrodd hwn. Rydym yn byw mewn moment wleidyddol ddigynsail. Mae llawer o bethau sy'n ansicr ynghylch dyfodol ein gwlad, ac mae hwn yn gyfle pwysig i chi herio ac i graffu ar bolisiau ac ar rethreg gwleidyddion.

Fel Cristnogion rydym yn credu nid yn unig bod ein byd a'r rhai sy'n byw ynddo wedi'u creu gan Dduw, ond mae'r systemau a'r strwythurau sy'n ein dal ni ynghyd yn rhan o bwmpas Duw hefyd. Cawn ein galw i dynnu sylw at anghenion y gorthrymedig, i godi llais gyda'r rhai sydd ar y cyrion, ac efallai i dynnu sylw at faterion sy'n cael eu hanwybyddu gan gyfryngau prif ffrwd. Mae angen i ni ofyn. "Pwy yw ein cymydog?" pan fyddwn ni'n pleidleisio.

Er y gall rhai groesawu'r cyfle y bydd Etholiad Cyffredinol yn ei gyflwyno, gall llawer deimlo eu bod wedi blino â gwleidyddiaeth. Fe all hynny olygu ei bod yn hyd yn oed yn fwy hanfodol i Gristnogion gydnabod eu cyfrifoldeb o ran meddwl am yr hyn y mae'r etholiad hwn yn ei olygu i'n cymunedau a'r sefyllfaoedd yr ydym yn fwyaf awyddus i weld newid ynddyn nhw.

Er bod y bleidlais i adael yr UE yn sicr yn newid llawer o bethau ar gyfer y DU, mae agweddau eraill ar fywyd gwleidyddol sydd hefyd yn newid yn sylweddol. Ers 1999, mae tirwedd wleidyddol Cymru wedi bod yn newid yn gyflym wrth i ddatganoli ddatblygu. Mae Deddf Cymru 2017, wedi newid eto y dosbarthiad o bwerau rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU. Mae ymddangosiad trefniadaeth rhanbarthau dinesig yng Nghymru a Lloegr (a Meiri Metro yn Lloegr), yn golygu ei bod yn amser hir ers i'r holl rym fod yn Whitehall a San Steffan.

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys materion sy'n parhau yn bennaf yn gyfrifoldeb Senedd San Steffan ac, felly, yr Aelodau Seneddol a fydd yn cael eu hethol yng Nghymru ar 8 Mehefin.

Mewn oes ddigidol, mae'r ffordd y mae unigolion yn ymgysylltu â gwleidyddiaeth wedi trawsnewid, ac mae'n parhau i newid, bron y tu hwnt i adnabyddiaeth. Rydym wedi gweld twf dyrys iawn yn y modd cynhennus y mae pobl yn ymwneud â gwleidyddiaeth, ac mae llawer o bleidleiswyr yn teimlo'n ansicr ynghylch ble y gallan nhw ddod o hyd i wybodaeth gytbwys. Mae cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol am agor sianeli cyfathrebu newydd ac ar yr un pryd hefyd yn creu cymunedau caeedig - lle byddwn ni ddim ond yn clywed safbwyntiau a barn y rhai sy'n edrych neu'n swnio'n gyfarwydd i ni.

Gair Geiriadur Rhydychen ar gyfer 2016 oedd "*post-truth*" neu "*ôl-wirionedd*". Wedi'i ddiffinio fel amgylchiadau lle mae ffeithiau gwrthrychol yn llai dylanwadol wrth lunio barn y cyhoedd nag apelio at emosiwn a chred bersonol. Mae'r ofn o fyw mewn cymdeithas ôl-wirionedd yn tanseilio'r gred bod unrhyw un yn siarad y gwirionedd. A yw hyn yn ffenomen newydd, neu ai goruchafiaeth gynyddol y rhyngwrwyd sydd wedi cymhlethu un sy'n bodoli eisoes?

Mae sylwebwyr eraill wedi nodi bod gwahaniaethau gwleidyddol traddodiadol rhwng y chwith a'r de yn cael eu tanseilio gan rwygiadau rhwng agweddau amddiffynnol a rhyddfrydol, sy'n ymddangos eu bod yn goresgyn y ffyrdd hanesyddol o benderfynu sut rydyn ni'n pleidleisio.

Pa ffordd bynnag rydych chi'n edrych ar hyn, mae tueddiadau gwleidyddol wedi newid yn ddramatig mewn cyfnod byr iawn, gan ei gwneud hyd yn oed yn anoddach i wybod beth sy'n digwydd mewn gwleidyddiaeth, ac i wneud y penderfyniad pwysig hwnnw ynghylch sut i ddefnyddio eich pleidlais.

Pa faterion sydd o bwys yn 2017?

Mae'r etholiad hwn wedi cael ei fframio i raddau helaeth yng nghydestun Brexit. Mae gwleidyddion yn erfyn ar bleidleiswyr i ystyried eu gallu i ddarparu bargaen dda ar gyfer y Deyrnas Unedig yn ystod y trafodaethau gyda'r UE, pe byddai eu plaid yn derbyn mandad i wneud hynny gan yr etholwyr. Ond nid dim ond ymwneud â mandadau'n unig y mae Etholiadau Cyffredinol. Mae'r papur briffio hwn yn tynnu sylw at bedwar mater fydd yn cael effaith wirioneddol ar ddyfodol y DU ar ôl 2017:

- **Perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd**
- **Mudo, dadleoli gorfodol a'r system lloches yn y DU**
- **Tlodi ac anghydraddoldeb economaidd yn y DU**
- **Rôl y DU yn y byd**

Er, yn sicr, nad dim ond y rhain yw'r unig faterion pwysig yn Etholiad Cyffredinol hwn, maen nhw'n tynnu sylw at rai materion domestig allweddol - lles, tlodi, a'n system lloches. Maen nhw hefyd yn archwilio pryderon byd-eang, gan gynnwys sut i sicrhau nad yw ein cyfrifoldebau i gefnogi'r rheiny yn y de byd-eang yn cael eu cysgodi gan bryderon mwy uniongyrchol ynghylch dyfodol ein gwlad ein hunain.

Defnyddio'r briff hwn

Mae'r briff hwn yn archwilio'r materion hyn mor uniongyrchol ag y bo modd, gan osod y ffeithiau allweddol yn hytrach na dweud wrthyhych chi am bleidleisio dros blaid benodol. Ar ddiwedd pob adran, byddwch hefyd yn dod o hyd i rai cwestiynau, a fydd yn eich helpu i fyfyrion ar y mater.

Bydd Cristnogion bob amser yn dal safbwyntiau gwrthgyferbyniol am wleidyddiaeth, ac mae hynny'n iawn. Yr hyn sy'n hanfodol yw nad ydym yn gadael i'r gwahaniaethau hyn effeithio ar y ffordd yr ydym yn trin ein gilydd. Dylem fod yn barod i wrando'n barchus ar farn a allai fod yn wahanol i'n barn ni ein hunain. Ond mae hefyd yn bwysig i ni beidio â cheisio osgoi gwrthdaro a rhoi'r gorau i siarad am y materion pwysig hyn oherwydd ein bod yn ofni y bydd eraill yn anghytuno â ni neu'n cael eu tramgwyddo. Gyda'r Etholiad Cyffredinol hwn, a yw'n bosib i ni fodelu anghytuno'n dda?

Felly beth am i chi eistedd i lawr gyda ffrindiau dros baned o de a defnyddio ein cwestiynau i arwain sgwrs am un mater yn benodol? Gallai grwpiau astudio'r Beibl ddefnyddio'r briff hwn ar y cyd â'n myfyrdodau Beiblaidd yn www.cytun.cymru/etholiad2017 er mwyn meddwl sut y gallai Cristnogion ymateb i Etholiad Cyffredinol 2017.

Perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd

Cefndir

Nid pleidlais ynghylch a ddylai'r DU aros yn yr UE yw'r etholiad sydd ar ddod, ac eto Brexit yw cefndir yr etholiad hwn yn ddi-os.

Ar draws y sbectrwm gwleidyddol, bydd gan wleidyddion a phleidiau dri phwynt sylfaenol:

- Y strategaeth y bydd Llywodraeth y DU yn ei defnyddio yn ystod y trafodaethau ar gyfer dod i gytundeb i dynnu allan
- Natur y cytundeb ei hun
- Yr effaith y gall y cytundeb ei gael, yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar feysydd polisi a budd y cyhoedd

Galwodd y Prif Weinidog, Theresa May, am etholiad cynnar ar y sail ei bod am roi "sefydlogrwydd a sicrwydd" ar hyd y blynyddoedd y bydd y DU yn trafod tynnu allan o'r UE, gan gredu y bydd llaw bargeinio'r DU yn well os oes mandad cryf yn cael ei roi i Lywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gyd-drafod telerau ein tynnu allan. Bydd y Ceidwadwyr yn dadlau y gallai ethol llywodraeth wahanol ar y cam hwn ychwanegu at yr ansicrwydd sydd eisoes yn amgylchynu'r broses.

Tra bod y Blaid Lafur yn ymrwymedig i'r DU yn tynnu allan o'r UE, mae wedi bod yn feirniadol am wrthodiad y Llywodraeth i ymrwymo i ddarparu sicrwydd i ddinasyddion yr UE. Maen nhw wedi dweud y bydd hyn yn flaenoriaeth "diwrnod cyntaf", os byddan nhw'n cael eu hethol. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd wedi galw am i ddinasyddion yr UE gael yr hawl i aros yn y DU.

Galwodd Nicola Sturgeon, arweinydd Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP), am gynnal refferendwm ynghylch annibyniaeth aelodaeth yr

“Beth mae'n ei olygu i feddwl am ein cymydog –a'u buddiannau – wrth wthio am fuddiannau'r DU ar adael yr Undeb Ewropeaidd?”

Alban yn yr Undeb, unwaith y bydd telerau Brexit yn glir. Mae Plaid Cymru (sy'n eistedd gyda'r SNP yn Senedd y DU) wedi dweud y dylai pleidleiswyr Cymru fod yn ystyried pa effaith y gallai'r canlyniad, a'r hyn a fyddai'n dilyn, ei gael ar ddyfodol Cymru.

Materion

Trafod dyfodol y DU

Bydd y trafodaethau y mae'r DU bellach yn rhan ohonyn nhw yn rhai o'r trafodaethau mwyaf eang eu cwmpas a'r mwyaf cymhleth a wnaed erioed gan y Deyrnas Unedig. Yn ystod y trafodaethau, bydd angen i'r materion canlynol a materion eraill gael sylw, ac os yn bosibl, gael eu datrys.

- *Hawliau dinasyddion yr UE a'r DU yng ngwledydd y naill a'r llall* - A fydd hawliau dinasyddion yr UE sy'n byw ar hyn o bryd yn y DU yn cael eu cyfyngu neu eu cadarnhau?
- *Ymrwymadau gwariant y DU o fewn cyllideb yr UE* – Fe fydd cynlluniau'r UE ar gyfer y dyfodol wedi cael eu gwneud ar y rhagdybiaeth y byddai'r DU yn cyfrannu at ei chyllideb. Mae'r aelodau sy'n weddill o'r UE eisoes wedi dechrau dadlau'r achos bod yn rhaid i'r DU wneud cyfraniad terfynol "setliad ysgariad" er mwyn gwneud iawn am y bwll yn y gyllideb a fydd yn deillio o'i hymadawiad.
- *Trosglwyddo cyfrifoldebau rheoleiddio'r UE o gyfraith yr UE i gyfraith y DU* – Pa mor hir y bydd deddfwriaeth Ewropeidd yn parhau i fod yn gymwys yn y DU, a sut y bydd y DU yn cymryd rhan yn y rheoliadau a gynhelir ledled Ewrop ar hyn o bryd?
- *Hawliau fflydoedd pysgota'r DU a'r UE i bysgota yn nyfroedd y naill a'r llall*
- *Ail-drafod trefniadau diogelwch trawsffiniol* – Sut beth fydd cyfrifoldebau diogelwch y DU unwaith y bydd wedi gadael yr Undeb Ewropeidd? A fydd y DU yn parhau i rannu gwybodaeth gyda chymdogion Ewropeidd? Ar ba ffurf y bydd gwiriadau diogelwch ffiniau'n gweithredu unwaith y bydd y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeidd?

Yn ogystal â thrafod y materion Ewropeidd hyn, a fydd y Llywodraeth yn y dyfodol hefyd yn gobeithio mynd ar drywydd cytundebau masnach gydag aelodau'r UE yn ogystal â gwledydd ledled y byd?. Po gyntaf y bydd materion penodol yr UE yn cael eu datrys, bydd mwy o sicrwydd ar gyfer y DU wrth iddi geisio ehangu ei nifer o bartneriaid masnachu.

Symudiad rhydd pobl a nwyddau

Mae cwestiynau allweddol yn parhau ynghylch dau o bedwar "piler allweddol" yr Undeb Ewropeidd - symudiad rhydd pobl a symudiad rhydd nwyddau.

Seiliwyd yr Undeb Ewropeidd ar y syniad bod y manteision o gytuno i'r pedair egwyddor hyn yn gorbwyso'r anfanteision, a'u bod yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae llawer o wledydd Ewropeidd yn amharod i roi manteision cysylltiadau masnachu hawdd i'r DU os nad yw'r wlad yn cytuno â'r egwyddorion eraill, fel symudiad rhydd pobl. Mae trigolion yr UE sydd ar hyn o bryd yn byw yn y DU wedi lleisio eu pryder am fethiant y Llywodraeth bresennol i warantu hawliau dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU, ac mae llawer ohonyn nhw wedi mynegi pryderon ynghylch eu dyfodol.

Beth mae'n ei olygu i feddwl am ein cymydog - a'u buddiannau - wrth wthio am fuddiannau'r DU wrth dynnu allan o'r UE?

Cwestiynau i'w hystyried ...

- Sut byddech chi eisiau i Lywodraeth yn y dyfodol eich cynrychioli yn ystod trafodaethau'r DU ynghylch ei pherthynas yn y dyfodol â'r Undeb Ewropeaidd? Pa faterion yr ydych chi'n pryderu yn eu cylch?
- Beth yn eich barn chi yw'r penderfyniadau pwysicaf a fydd yn cael eu gwneud yn ystod y broses? Ar bwy y byddan nhw'n effeithio?
- A yw "lles cyffredinol" yn bosib wrth drafod ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd? Sut beth fyddai hyn i bobl yn eich cymuned, eich cenedl, a phobl mewn gwledydd eraill?
- Sut y byddai'n bosib i ofnau a phryderon pobl gael y sylw yn ystod y broses hon?

Mudo, dadleoli gorfodol a'r system lloches yn y DU

Cefndird

Ym mis Medi 2015, cafodd y byd ei siglo gan y delweddau syfrdanol o blentyn ifanc, Alan Kurdi, a ganfuwyd yn farw ar draeth yn Nhwrchi. Bron dair blynedd yn ddiweddarach, beth sydd wedi newid a beth sydd wedi aros yr un fath, a pham? Mae pobl yn gadael eu cartrefi am nifer o resymau. Mae'n demtasiwn i nodi gwahaniaeth rhwng pobl sy'n cael eu gorfodi i adael eu cartrefi fel ffoaduriaid, yn ffoi rhag gweithredoedd penodol o drais neu erledigaeth, a'r rhai sy'n dewis ymfudo am resymau economaidd. Mewn gwirionedd, mae'n anodd gwneud gwahaniaeth clir o'r fath. Yn Syria, roedd llawer o ffoaduriaid a orfodwyd i ffoi yn bobl oedd mewn swyddi da, ond nid oedd cyfoeth cymharol yn eu galluogi i aros yn ddiogel yn wyneb rhyfel cartref.

Mae'n bwysig cofio nad yw'r argyfwng ffoaduriaid presennol wedi ei ynysu i un wlad neu ranbarth. Mae'n argyfwng dyngarol ar raddfa fyd-eang. Gall rhyfeloedd neu drychinebau weithredu fel sbardunau sy'n cymhlethu effeithiau tlodi, anghydraddoldeb a gwahaniaethu, gan orfodi pobl i ffoi o'u cartref a'u gwlad.

Mae Llywodraeth y DU wedi darparu cymorth ariannol sylweddol ar gyfer cymorth dyngarol yn y rhanbarth o gwmpas Syria, diolch i'w hymrwymiad i ddyrannu 0.7% o'r incwm cenedlaethol gros tuag at gymorth rhyngwladol a datblygiad. Mae'r arian wedi cael ei wario ar gymorth mewn argyfwng: bwyd, lloches, cymorth meddygol, pecynnau cymorth brys a chyfarpar ar gyfer glanweithdra a hylendid. Mae hefyd wedi ariannu cefnogaeth gydag addysg a chyflogaeth i ffoaduriaid yn Libanus a Gwlad Iorddonen ⁱⁱ.

“Mae'r argyfwng ffoaduriaid dyngarol sydd ohoni yn parhau i effeithio ar tua 65.3 miliwn o bobl yn fyd-eang”

Heddiw, mae llawer o sylw'r byd wedi symud ymlaen o argyfwng y ffoaduriaid. Mae materion eraill, fel Brexit, yr etholiad Americanaidd a'r pryderon cynyddol am Ogledd Korea, wedi golygu bod llai o sylw yn y cyfryngau am yr argyfwng dyngarol sydd ohoni, sy'n parhau i effeithio ar tua 65.3 miliwn o bobl yn fyd-eang. Mae hyn hefyd wedi golygu bod galwadau gan gymdeithas sifil - elusennau, grwpiau ffydd ac arweinwyr cymunedol - i wneud mwy dros ffoaduriaid, wedi cael eu boddi yn aml..

Materion

Pryderon ynghylch mewnfudo

Roedd mewnfudo'n fater gwleidyddol pwerus, ac yn ymranol yn aml, a fu'n hawlio llawer o'r sylw adeg y refferendwm diweddar ynglŷn â'r Undeb Ewropeaidd. Er bod profiad personol neu gyfeillgarwch gydag ymfudwyr yn aml yn arwain at agweddau mwy cadarnhaol tuag at fudo, mae'r pleidleisiau'n dangos yn gyson fod y cyhoedd ym Mhrydain i raddau helaeth yn awyddus i lefelau mewnfudo gael eu lleihau.

Mae pryderon am y lefelau ymfudo i'r wlad yn golygu bod llawer yn gwrthwynebu mesurau a allai brofi i fod yn "abwyd", gan gynyddu lefelau mudo i mewn i'r wlad. Eto mae'r caniatâd am loches yn cynrychioli cyfran fach iawn o fewnfudo net i'r DU, a dim ond cyfran fach y mae'r DU yn ei chymryd o'r rhai sy'n ceisio lloches yn Ewrop. Yn 2016, mae dros 1.2 miliwn o bobl wedi ceisio am ddiogelwch yn Ewrop. O'r nifer hwn, derbyniodd Prydain 38, 517 o geisiadau am loches gan gynnwys dibynnyddion - tua 3% o'r holl geisiadau am loches a wnaed yn yr UE y llyneddⁱⁱⁱ.

A fydd yr etholiad hwn yn dod yn gyfle i bleidiau addo cyfyngu ymhellach ar y nifer o fewnfudwyr neu geiswyr lloches a ddaw i mewn i'n gwlad, neu a yw'n amser i ni ailystyried y ffordd yr ydym yn ymdrin â mudo?

Cymryd cyfrifoldeb: adleoli ffoaduriaid

Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU raglen gyfyngedig yn ymwneud ag adsefydlu ffoaduriaid o deuluoedd o Syria o'r gwrsylloedd ffoaduriaid. Yr addewid gwreiddiol oedd 20,000 o bobl i gael eu hadsefydlu 'yn ystod oes Senedd y DU', yr oedd disgwyl iddi fod mewn grym tan y gwanwyn yn 2020. Fodd bynnag, gyda galw'r etholiad yn gynnar, mater i'r Llywodraeth nesaf fydd penderfynu dyfodol y rhaglen hon. Mae'r un peth yn wir am raglenni adsefydlu eraill, gan gynnwys y rhai ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd o'r Dwyrain Canol a Gogledd Affrica, ar gyfer rhaglenni adsefydlu o ardaloedd eraill mewn argyfwng, ac ar gyfer unrhyw gymorth posibl yn y dyfodol i geiswyr lloches a fydd yn blant ac ar eu pen eu hunain, yn Ewrop.

Er bod y DU wedi ymrwymo i adleoli 20,000 o ffoaduriaid o Syria, mae hyn yn fach iawn o'i gymharu â nifer y ffoaduriaid y mae gwledydd eraill wedi'u derbyn. Mae Libanus, Pacistan a Thwrci i gyd

yn croesawu o leiaf 1 filiwn o ffoaduriaid yr un, tra bod Ewrop wedi derbyn dim ond 6% o gyfanswm y nifer o bobl sydd wedi'u dadleoli.

Wrth i ni edrych at ddyfodol lle nad yw'r DU yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, mae rhai penderfyniadau pwysig i'w gwneud am sut y bydd y DU yn delio â mudo ac yn dewis ymateb i'w rhwymedigaeth gyfreithiol a moesol i gefnogi ffoaduriaid yn y dyfodol.

Cymorth lloches

Mae nifer o elusennau a grwpiau hawliau dynol wedi lleisio eu pryder am yr ymdriniaeth a gaiff ceiswyr lloches o dan y system lloches bresennol. Maen nhw'n dadlau bod y system lloches yn methu â bodloni safonau sylfaenol gofal a chymorth y mae gan y ceiswyr lloches hawl cyfreithiol iddyn nhw, ac yn aml mae hyn yn gadael elusennau, gan gynnwys grwpiau ffydd, i bontio'r bwloch.

Dyweddodd adroddiad diweddar fod tystiolaeth yn dangos bod "system ddwy-haen wedi datblygu yn achos ffoaduriaid. Mae'r ffoaduriaid hynny sy'n cyrraedd drwy lwybr adsefydlu yn cael llety a chael cymorth i gael mynediad at wasanaethau, a dod o hyd i gyflogaeth. Ar gyfer ffoaduriaid sydd wedi mynd trwy'r system lloches, nid oes cymorth o'r fath."^{iv} Mae'r system ddwy-haen hon yn ymddangos fel petai'n adlewyrchu naratif sy'n cael ei ddefnyddio o fewn y cyfryngau, sef dangos ffoaduriaid ar raglenni adsefydlu swyddogol mewn ffordd fwy cadarnhaol, a cheiswyr lloches sy'n cyrraedd yn annibynnol fel ymfudwyr "afreolaidd" neu ymfudwyr anghyfreithlon.

Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches, llawer ohonyn nhw wedi dioddef profiadau trawmatig yn eu gwlad eu hunain, yn wynebu heriau aruthrol wrth geisio ailadeiladu eu bywyd mewn gwlad newydd. Mae egwyddorion Cristnogol o groeso a chariad ar gyfer y dieithryn yn ein hatgoffa i drin pobl eraill fel y byddem ni ein hunain yn dymuno cael ein trin. Beth mae hyn yn ei olygu wrth i ni feddwl am faterion lloches a mewnfudo yn yr etholiad hwn?

Cwestiynau i'w hystyried...

- Pa rôl, yn eich barn chi, y dylai'r DU ei chwarae wrth ymateb i'r argyfwng ffoaduriaid byd-eang?
- Pa ffactorau y dylai'r DU eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am ddyfodol ein system fewnfudo?
- Beth mae ein ffydd, a'r straeon sydd i'w cael yn y Beibl, yn ei ddweud wrthym am y ffordd y dylem drin y rhai sy'n dod i'r DU mewn angen am gymorth?

Tlodi yn y DU

Cefndir

Fel Cristnogion, rydym yn credu bod pawb wedi cael eu gwneud ar lun a delw Duw, ac y dylai pob un gael y cyfle i wireddu'r potensial mae Duw wedi ei roi ynddyn nhw. Eto, mae tlodi yn y DU yn effeithio ar fywydau tua 4 miliwn o blant, dwy ran o dair ohonyn nhw'n

perthyn i deuluoedd sy'n gweithio. Er gwaethaf cynnydd parhaus mewn cyflogaeth ar gyfer rhieni, rhagwelir y bydd tlodi ymysg plant yn cyrraedd 5 miliwn erbyn 2020.

“Er gwaethaf cynnydd parhaus mewn cyflogaeth ar gyfer rhieni, rhagwelir y bydd tlodi ymysg plant yn cyrraedd 5 miliwn erbyn 2020.”

Mae tlodi yn y DU wedi gweddnwedd yn ystod y ddwy ddegawd ddiwethaf. Roedd tlodi yn y gorffennol i raddau helaeth yn gysylltiedig â diweithdra a henaint. Erbyn heddiw, pensiynwyr yw'r grŵp oedran lleiaf tebygol o brofi tlodi, ac mae'r rhan fwyaf o deuluoedd tlawd yn gyflogedig. Mae'r pedair blynedd diwethaf wedi gweld lefelau cynyddol o gyflogaeth yn mynd law yn llaw â thlodi cynyddol ac yn enwedig tlodi ymysg plant.

Mae newidiadau i'r isafswm cyflog a'r system dreth wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfer pobl sy'n byw mewn tlodi, ond mae'r rhain yn cael eu llethu'n fawr gan effeithiau negyddol llawer mwy o ganlyniad i doriadau yn y system budd-daliadau. Disgwylir i doriadau mewn budd-daliadau barhau i beri cynnydd mewn tlodi ymysg plant gan y bydd y Credyd Cynhwysol newydd yn darparu llawer llai o gefnogaeth na'r buddion y mae'n ei ddisodli.

Materion

Nid yw mwy o gyflogaeth yn golygu llai o dlodi

Mae cyfradd ddiweithdra'r DU yn isel yn ôl safonau hanesyddol, ac ar y cyfan mae'r niferoedd mewn cyflogaeth yn uchel iawn - ond mae tlodi ar gynydd. Nid canlyniad i sut y mae tlodi yn cael ei fesur yw hyn; mae dulliau gwahanol o edrych ar incwm ac amddifadedd yn adrodd stori debyg.

Yn hytrach, nid yw gwaith yn darparu incwm digonol i gadw teuluoedd allan o dlodi. Cyflog isel a gwaith ansicr yw rhan o'r esboniad. Ffactor allweddol arall yw bod llawer o'r swyddi newydd yn mynd i bobl sy'n gorfod gweithio nifer cyfyngedig o oriau oherwydd problemau iechyd, anabled neu gyfrifoldebau gofalu. Yn achos llawer o deuluoedd, ni fydd gweithio'n galed, hyd yn oed ar yr hyn a elwir yn Gyflog Byw Cenedlaethol, yn atal tlodi. Mae'r budd-daliadau mewn-gwaith wedi bod yn allweddol i'r grŵp hwn er mwyn osgoi tlodi.

Brexit a thlodi

Bydd Brexit yn cael effaith enfawr ar economi'r DU. Ar gyfer y rhai sydd mewn tlodi, y cwestiynau pwysicaf yw'r rhai ynghylch sut y bydd cyfoeth o fewn y wlad yn cael ei ddsbarthu. Gallai llywodraeth sy'n dod i rym ddewis pwysleisio polisiau sy'n targedu arian ar ardaloedd sy'n economaidd dlotach a'r rhai lleiaf cyfoethog. Os na fydd yn gwneud hynny, ac os bydd yr economi yn dioddef oherwydd Brexit, felly hefyd y bydd y rhai sydd eisoes yn byw mewn tlodi.

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol, sy'n deillio o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn cyfyngu ar ddiwygiadau budd-daliadau. Ac yn bwysig iawn, mae'r holl ddiwygiadau wedi'u cynllunio i gydymffurfio â'r Ddeddf. Hyd yn oed wedyn mae rhai achosion anodd neu ganlyniadau anfwriadol o bolisiau yn cael eu herio o dan y Ddeddf. Er enghraifft, gwelwyd ei fod yn annheg ac yn anghyfreithlon bod y Cymhorthdal Ystafell sbâr, neu Dreth Ystafell Wely, yn cael ei gymhwyso i ystafelloedd panig ar gyfer goroeswyr trais yn y cartref,

eu i ystafelloedd yr oedd pobl anabl yn eu defnyddio i storio offer meddygol. A fydd y Ddeddf Hawliau Dynol yn cael ei chadw?

Bydd yn bwysig asesu effaith unrhyw drefniadau ôl-Brexit ar y system fudd-daliadau a sicrhau nad yw'r tlotaf yn dioddef yn anghymesur o ganlyniad.

Cwestiynau i'w hystyried ...

- Pa flaenoriaeth yn eich barn chi y dylai Llywodraeth newydd ei rhoi i leihau tloti wrth iddi weithio tuag at adael yr Undeb Ewropeaidd? Sut beth fyddai hyn?
- Mae llawer o rieni a gwarcheidwaid yn methu gweithio'n llawn amser, neu weithio o gwbl, oherwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu. Sut y dylai Llywodraeth newydd sicrhau eu bod nhw a'u plant yn gallu osgoi tloti?
- Dywedodd y Pab Francis, "*Cymaint yr hoffwn eglwys sy'n dlawd ac o blaid y tlodion*" Beth tybed allai hyn ei olygu yn achos eich eglwys chi?

Rôl y DU yn y byd

Cefndir

Ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, bydd y DU yn awyddus i ddatblygu ymhellach perthynas gadarnhaol gyda chenhedloedd sy'n parhau i fod o fewn yr UE a gwledydd eraill. Un o'r buddiannau cenedlaethol allweddol fydd cysylltiadau masnach y DU. Ond ar ba gost y dylai'r cysylltiadau masnach hyn gael eu meithrin? Sut y gall y DU sicrhau na fydd ei chyflawniadau ym meysydd hawliau dynol, newid yn yr hinsawdd, a datblygu rhyngwladol, yn cael eu herydu gan gytundebau gydag economïau mawr, pwerus? Beth fydd lle'r DU yn y byd yn y dyfodol?

Yn Deuteronomium, cawn y ddelwedd o genedl gyda "phobl ddoeth a deallus". Ar y pryd roedd disgynyddion Abraham yn mynd trwy drobwynt ym mywyd eu cenedl, yn wynebu'r her o fynegi cenedligrwydd wrth newid o un cyd-destun i gyd-destun newydd annelwig. Ym mha ffordd bynnag yr ydym yn ymwneud â'r UE, neu unrhyw endid gwleidyddol arall, rydym yn rhan o gymuned ryngwladol. Mae'r ddelwedd hon a ddisgrifir yn Deuteronomium yn ein hatgoffa nad yw parch at genedl yn dod drwy weithredoedd neu orchest wleidyddol unwaith yn unig, ond trwy ymrwymiad parhaus i gyfiawnder a heddwch. Beth mae hynny'n ei olygu ar gyfer rôl y DU?

Materion

Diogelwch a Materion Rhyngwladol

Ar ôl cymryd rhan yn y rhyfel yn Irac, mae'n ddealladwy bod y DU wedi bod yn amharod i ymyrryd yn filwrol mewn gwrthdrawiadau eraill, megis y Rhyfel yn Syria. Ond wrth i'r DU baratoi i lansio'r gyntaf o ddwy long newydd sy'n cludo awyrennau, mae ei pholisi ar gefnogi heddwch yn y Dwyrain Canol yn ddryslyd. Er gwaethaf y ffaith bod

adroddiad y Pwyllgor Materion Tramor i ymdriniaeth y Llywodraeth o Libya yn nodi fel a ganlyn, *“Government has yet to appreciate the lessons from our experience in Libya, including our lack of country knowledge amongst those drafting and deciding policy”*, mae'r DU yn dal i ymdrechu i gyfrannu arweinyddiaeth tuag at strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cynnal heddwch yn y rhanbarth. Beth ddylai rôl y DU fod mewn perthynas â gwrthdaro ledled y byd?

Hawliau Dynol

Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yn hynod o bwysig o ran amddiffyn hawliau pob dinesydd Prydeinig. Mae'n cynnwys amddiffyniadau allweddol i ddinasyddion *vis a vis* y wladwriaeth, gan gynnwys yr hawl i beidio â chael eu cadw'n anghyfreithlon, yr hawl i gael treial teg, yr hawl i ryddfynegiant, triniaeth deg a chyfartal, a rhyddid cydwybod. Mae'n endid ar wahân i'r UE, ac ni fydd ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth ddiddymu ein hymrwymiad i'r ECHR. Fodd bynnag, mae'r rhethreg ynglŷn â 'chymryd rheolaeth yn ôl' wedi arwain at alwadau am Fesur Hawliau newydd ar gyfer y DU, ac i'r DU dorri cysylltiadau â'r ECHR.

Os bydd y DU yn gadael y Confensiwn Ewropeaidd, fe allai llawer o'r hawliau hyn bellach fod yn fater ar gyfer trafodaeth wleidyddol yn hytrach na'u cymryd yn ganiataol. Mae'r Prif Weinidog, Theresa May, wedi dadlau bod y Confensiwn yn 'rhwymo dwylo' Llywodraeth y DU wrth ddelio ag achosion diogelwch, gan iddo gael ei ddefnyddio gan rai o dan amheuaeth o derfysgaeth er mwyn eu hatal rhag cael eu halltudio o'r DU. Fodd bynnag, mae grwpiau hawliau dynol yn dadlau bod cadw a chryfhau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol er budd gorau dinasyddion Prydeinig.

Yr Amgylchedd

“Gellir dadlau mai newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu dynoliaeth, ond ei fod yn fygythiad a fydd i raddau helaeth yn effeithio ar y bobl dlotaf yn y byd”

Gellir dadlau mai newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu dynoliaeth, ond ei fod yn fygythiad a fydd i raddau helaeth yn effeithio ar y bobl dlotaf yn y byd, ar blanhigion ac anifeiliaid sy'n wynebu difodiant, ac ar ecosystemau sydd wedi cael eu hecsbloetio gan y gorllewin ar gyfer eu hadnoddau naturiol. Mae parodrwydd y DU i gymryd newid yn yr hinsawdd yn fygythiad difrifol wedi cael ei gydnabod yn rhyngwladol, ond wrth i faterion eraill, gan gynnwys masnach, fod yng nghanol y sylw, a fydd record y DU ar newid yn yr hinsawdd yn dechrau llithro?

Mae'r DU wedi cadarnhau cytundeb hinsawdd Paris 2015 ond bydd angen am adolygiad ar addewidion yr holl genhedloedd yn 2020. Mae hyn yn hanfodol oherwydd bod llywodraethau wedi addo cymryd camau pellach i gadw cynhesu trychinebus i lawr i 1.5 gradd. A fydd y DU nid yn unig yn cynnal ei hymdrechion i gyrraedd ei thargedau presennol ynghylch newid yn yr hinsawdd, ond hefyd yn bwriadu cynyddu ei gweithredoedd er mwyn cyflawni uchelgais Uwchghynhadledd Paris?

Gwrthod rhyddid crefyddol

Mewn llawer lle yn ein byd mae'r rhyddid i bobl ymarfer eu crefydd a'u cred o dan ffigythyad. Gall pobl o sawl ffydd, a dim ffydd, gael eu hunain yn agored i drais corfforol, carchar ac artaith a gwrthod hawliau, cyflogaeth a chyfleoedd eraill. Gall grwpiau ffydd ei chael yn anodd cael caniatâd i agor manau newydd i addoli, a gall y rhai sy'n codi llais yn erbyn cyfyngiadau gan fod eu hunain yn cael eu targedu. Yn rhy aml, mae llywodraethau'n gweld y maes hwn o hawliau dynol yn anodd mynd i'r afael ag ef yn eu cysylltiadau gyda gwladwriaethau eraill, ac o bosib byddant hyd yn oed yn gwrthwynebu mesurau i fonitro'n systematig gyfyngiadau ar ryddid gwybodaeth a chred. Gallai Llywodraeth yn y dyfodol chwarae rôl allweddol wrth hyrwyddo rhyddid crefydd a chred fel hawl dynol sylfaenol.

Cwestiynau i'w hystyried....

- I ba raddau y dylai mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth nesaf? Beth allai hyn ei olygu?
- A allai canolbwynt y DU ar sefydlu cysylltiadau masnachu dwyochrog gyda gwledydd eraill ein rhwystro rhag herio cam-drin hawliau dynol? Sut y dylai cytundebau masnach newydd ystyried hawliau dynol?
- Ydych chi'n ymwybodol o leoedd lle mae cyfyngiadau ar ryddid crefyddol? Sut y dylai llywodraeth yn y dyfodol dynnu sylw at bwysigrwydd rhyddid crefyddol yn rhyngwladol?

Am fwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth ac adnoddau pellach a gynhyrchwyd gan CYTÛN ewch i

www.cytun.cymru/etholiad2017

Yno, fe fyddwch yn dod o hyd i "Dyma amser", myfyrdod Beiblaidd ar yr etholiad sydd ar ddiwedd, a chanllawiau wedi'u llunio i helpu'r rhai sy'n cynllunio i gynnal cyfarfodydd gydag ymgeiswyr yn eu cymuned leol.

Gwefannau defnyddiol eraill:

Pleidlais Crynwyr : <https://www.quaker.org.uk/news-and-events/news/count-down-to-general-election>

Cristnogion mewn Gwleidyddiaeth: <http://www.christiansinpolitics.org.uk/>

Gwefan EYMI yn rhoi sylw i'r Etholiad Cyffredinol: <http://www.churcheselection.org.uk/>

The Joint Public Issues Team: <http://www.jointpublicissues.org.uk/issues/politics-and-elections/general-election-june-2017/>

ⁱ Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn y briff hwn gan Chatham House <https://www.chathamhouse.org/publications/twt/preparing-uks-brexite-negotiation>

ⁱⁱ <https://www.ft.com/content/65a3e064-2120-11e7-a454-ab04428977f9>

ⁱⁱⁱ https://www.refugeecouncil.org.uk/latest/news/4853_top_20_facts_about_refugees_and_asylum_seekers

^{iv} https://www.refugeecouncil.org.uk/assets/0004/0316/APPG_on_Refugees_-_Refugees_Welcome_report.pdf



Cynhyrchwyd gan y Joint Public Issues Team www.jointpublicissues.org.uk @publicissues Mai 2017
a Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) www.cytun.cymru @CytunNew Mai 2017